

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn swyddfa'r Cyngor a trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher, Mawrth 30^{ain}, 2022 am 7. 30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	P. H Roberts	D.Nicholas	Mrs K. D. L Davies
	R. A Davies	A. J. Evans	E. W. Nicholas
Ymddiheuriadau	Mrs J. E. Collins		

1078.

Ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a dderbyniwyd oddiwrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'w hystyried yng nghyfarfod pwyllgor cynllunio y Cyngor a gynhaliwyd ar Fawrth30ain, 2022, gan weithredu gydag awdurdod llawn.

B3218/PL03482 Estyniad dau lawr i greu lolf a swyddfa/ stydi gyda chyfleusterau en suite yn Erwain, Heol Caerbryn, PENYGGROES.

- CANIATÂD CYNLLUNIO I DDEILIAID TAI

Sylwadau: Dim sylwadau i'w cynnig

B3219/ PL03609 Gosod 3 chwt bugail ar dir ger y tŷ annedd preswyl i'w defnyddio at ddiben gwyliau ym Mryngwinau, Llandyfan, LLANDYBÏE.

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau: Dim sylwadau i'w cynnig

B3220/ PL03625 Materion a Gedwir yn Ôl parthed â'r Cais Cynllunio Amlinellol E/40598 (Bodloni Amodau 1-11) yn Erwain, Heol Caerbryn, PENYGGROES.

- CYMERADWYO'R MATERION A GEDWIR YN ÔL

Sylwadau: Dim sylwadau i'w cynnig

B3221/ PL03750 Datblygiad Preswyl yn cynnwys 45 tŷ annedd ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir ger Maespiode, Llandybïe

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Mae dal pryder ynghylch maint y traffig sy'n cael ei gynhyrchu o'r safle hon i'r B4556, sydd eisoes yn brysur, a sy'n arwain at y cyffordd gyda'r A483 ar sgwâr Llandybïe. Mae'r traffig adeg yr oriau brig eisoes yn achosi tagfeydd wrth y cyffordd, a hynny cyn bod y safle wedi'i hadeiladu, ac mae'r niferoedd o gerbydau a fydd yn gadael/ cael mynediad at y safle wedi'i danamcangyfrif yn ddybryd. Mae'r cynlluniau diwygiedig a gyflwynir yn awr yn cynnwys tai yn hytrach na byngalos ac, oherwydd y newid hwn, mae'n debygol y bydd poblogaeth y safle yn ifancach, ac felly'n golygu y bydd mwy o ofyn am gyfleusterau addysg yn y pentref. Mae'n debygol y bydd yr ysgol newydd a fydd, efallai, yn cael ei hadeiladu, yn cyrraedd capasiti ar ôl derbyn y plant o'r safle newydd hwn, ynghyd â phlant o'r datblygiad 24 tŷ annedd yn y pentref, y cytunwyd arno'n ddiweddar.

1079.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.45 yh.